

Cylch Gorchwyl

Grŵp Cyflawni Cymru ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (AMR) mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd

Y Cefndir:

Fel ymateb i fygythiad AMR, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yn 2013 strategaeth bum mlynedd i fynd i'r afael mewn ffordd integredig a thraws-sectorol â'r pwnc. Yng Nghymru cafodd Cynllun Cyflawni pum mlynedd ar gyfer AMR yn y GIG ei ddatblygu, er mwyn cyflawni amcanion y strategaeth.

Mae gweledigaeth 20 mlynedd newydd a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd (2019-2024) y DU yn adeiladu ar lwyddiannau strategaeth 2013-2018 ac yn gosod heriau a chymau uchelgeisiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf gan fabwysiadu ymagwedd Un Iechyd ar gyfer pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd.

Mae Cymru gyda gwledydd eraill y DU, wedi bod yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd y DU.

Dyma rai o'r uchelgeisiau pwysicaf o ran anifeiliaid a'r amgylchedd yng Nghymru:

- Am y tro cyntaf, monitro gwrthfotigau a'u holion yn yr amgylchedd.
- Lleihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau yn fawr mewn anifeiliaid fferm trwy wella statws iechyd buchesi a diadelloedd a rhoi'r egwyddor 'gwell atal clwy na'i wella' ar waith mewn systemau cynhyrchu anifeiliaid.
- Mesur y defnydd o wrthfotigau ar lefel y fferm ar gyfer pob prif rywogaeth o anifail fferm.
- Adolygu a gwella'r modd y cedwir golwg ar AMR mewn bacteria sy'n dod o anifeiliaid.
- Gwella safonau goruchwyllo gwrthfotigau ymhlith milfeddygon trwy hyfforddiant, meincnodi ac arweiniad ar gyfer rhagnodi a chyflenwi.
- Defnyddio llai o wrthfotigau mewn anifeiliaid anwes.

Diben:

Cafodd Grŵp Cyflawni Cymru ar AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd ei sefydlu i ddatblygu ac argymhell Cynllun Gweithredu ar AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd yng Nghymru, i gymryd y camau y cytunwyd arnyn nhw yng Nghynllun Gweithredu Cenedlaethol Pum Mlynedd y DU. Mae gan Lywodraeth Cymru ran i'w chwarae i ddatrys problem AMR, gan weithio ar y cyd â chydweithwyr ar draws Llywodraeth Cymru, a thu hwnt â gweinyddiaethau eraill, rhanddeiliaid, milfeddygon, asiantaethau darparu ac arbenigwyr yn y maes ym Mhrydain/DU.

Rydym ni yma yng Nghymru am wneud y gorau o'n cryfderau er mwyn ychwanegu cymaint ac y medrwn at werth ein hymdrechion cenedlaethol, heb ddyblygu'r ymdrechion hynny.

Cwmpas:

Mae'r Grŵp Cyflawni ar AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd wedi'i sefydlu i baratoi ac argymhell Cynllun Gweithredu yng Nghymru. Ac i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei roi ar waith a bod ei ganlyniadau'n cael eu gwireddu.

Mae cwmpas y Grŵp Cyflawni yn cynnwys rhoi cyngor ar yr holl weithredoedd y mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanyn nhw o ran anifeiliaid a'r amgylchedd. Bydd y Grŵp yn trafod, yn holi ac yn clywed barn amrywiaeth eang o ffynonellau er mwyn gallu rhoi cyngor annibynnol ac arbenigol.

Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:

- Gynlluniau cymorth a chronfeydd datblygu.
- Gweithio ar y cyd, gan gynnwys milfeddygon, cynrychiolwyr y diwydiant, academia ac ati.
- Cyfathrebu â diwydiant/y cyhoedd.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn ystyried AMR mewn anifeiliaid fferm ac anwes; ac AMR yn yr amgylchedd gan gymryd sefyllfa unigryw Cymru i ystyriaeth, fel y berthynas â Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru a'n Partneriaid Cyflawni Milfeddygol.


Bydd y Grŵp Cyflawni'n rhoi ei sylw pennaf ar reoli anifeiliaid fferm ac anwes, ac ar yr AMR sy'n cael ei ledaenu i'r amgylchedd. Gofynnir i'r Grŵp ystyried a ddylai'r Cynllun Gweithredu roi sylw ar AMR mewn dyframaethu ac anifeiliaid gwyllt.

Amcanion:

Amcanion cyffredinol y Grŵp Cyflawni ar AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd yw:

- Cyngori, cefnogi a chynnal Cynllun Gweithredu ar AMR mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd yng Nghymru.
- I fod yn atebol i Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ac adrodd hefyd i Grŵp Llywio Cymru ar Heintiau / AMR sy'n gysylltiedig â Gofal Iechyd. Rhoi cyngor cydgysylltiedig i Weinidogion yn ôl yr angen.
- Ffrwyno lledaeniad AMR a sbarduno gostyngiad yn y defnydd o wrthfotigau. Gan ddilyn o hynny, rhoi cyngor ar y gofynion goruchwyllo a monitro sydd eu hangen i fesur a sicrhau gostyngiadau uchelgeisiol ac ymarferol i Gymru, yng nghyd-destun y DU.
- Sicrhau bod agweddau ar reoli AMR yng Nghymru (a gweddill y DU lle bo gofyn) sy'n ymwneud ag anifeiliaid a'r amgylchedd yn cael eu rheoli mewn ffordd gydgysylltiedig a synergyddol â rheoli AMR mewn pobl, gan fabwysiadu ymagwedd 'Un Iechyd' go iawn.
- Ar gyfer y tri sector (pobl, anifeiliaid a'r amgylchedd), dysgu cymaint ag y medrir am y lleill i weld ble mae'r bylchau yn eu gwybodaeth a chynghori sut i'w llenwi.
- O ran polisi AMR a'i roi ar waith, gwneud Cymru'n esiampl ryngwladol.
- Cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel Cymru iachach, Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang, Cymru ffyniannus a Chymru gydnerth.
- Gwellu'r cyfleoedd i'r sylfaen wyddoniaeth yng Nghymru ddatblygu a chyfrannu at reoli AMR.

Llywodraethu AMR yng Nghymru:



- * Heintiau a Ddelir wrth Dderbyn Gofal Iechyd
- * Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- * Cwestiynau Cyffredin, Safonau a Pholisi
- * Gweithlu
- * Ymchwil a Datblygu

Aelodau a Strwythur y Bwrdd:

Bydd y Grŵp Cyflawni'n gymysgedd o gynrychiolwyr y llywodraeth a'r sector preifat.

Oherwydd arbenigedd y gwaith, caiff unigolion eu gwahodd i ddod yn aelod o'r bwrdd. Disgwylir i unigolion ddod i'r cyfarfodydd yn eu henw eu hunain, ac nid fel cynrychiolwyr corff neu grŵp y maent yn aelod ohono.

Ni chaiff aelodau'r Bwrdd eu talu am ddod i gyfarfodydd ond fe fyddan nhw'n cael hawlio costau teithio a chynhaliaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Cadeirydd a Dirprwy Cadeirydd

- Heb benderfynu eto
- Heb benderfynu eto

Aelodau'r Grŵp Cyflawni

- Llywodraeth Cymru - Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol
- Llywodraeth Cymru - Is-adran Dŵr a Llifogydd
- Cynrychiolwyr Ffermwyr / Academi Amaeth
- Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru
- Partneriaid Cyflawni Milfeddygol
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Cymdeithas Milfeddygon Prydain
- Iechyd Cyhoeddus Cymru

Rolau a Chyfrifoldebau:

Swyddfa Cymru y Prif Swyddog Milfeddygol fydd yn darparu'r cymorth ysgrifenyddol.

Bydd tîm yr ysgrifenyddiaeth yn trefnu'r strategaeth gyfathrebu, gan gynnwys y wefan a deunydd hyrwyddo digwyddiadau ac ati. Tîm yr ysgrifenyddiaeth fydd yn trefnu hefyd unrhyw ohebiaeth ac ymholiadau.

Caiff eitemau priodol ar yr agenda eu codi cyn y cyfarfod. Y Cadeirydd fydd yn penderfynu ar yr agenda derfynol a bydd yr ysgrifenyddiaeth yn ei rhannu cyn y cyfarfod. Ceir templed o agenda yn Atodiad 1.

Cymerir y camau y gwelir gan y grŵp bod eu hangen ac efallai y caiff is-grwpiau eu sefydlu i hwyluso hynny. Gofynnir i'r Grŵp ystyried, er enghraifft a ddylid sefydlu is-grwpiau i ystyried yr elfennau canlynol:

- Monitro'r amgylchedd
- Cadw golwg i fesur effeithiau
- Cymryd camau ynghylch anifeiliaid anwes
- Rhoi gwrthfotigau ar bresgripsiwn a darparu canllawiau a mesurau

Nid oes gan y Grŵp Cyflawni'r rhyddid i wneud penderfyniadau ar sut y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu, i gadarnhau Cytundebau Lefel Gwasanaeth gyda chyrff cyflawni, i gymeradwyo cynlluniau wrth gefn nac i gymeradwyo cyflwyniadau.

Y Cylch Cynllunio ac Adrodd:

Bydd y Grŵp Cyflawni'n cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb bedair gwaith y flwyddyn, ynghyd â chyfarfodydd ad hoc yn ôl y gofyn.

Bydd y Cynllun Gweithredu'n disgrifio blaenoriaethau, sut y byddan nhw'n cyfrannu at ganlyniadau strategol, cyfrifoldebau arweinwyr a chamau allweddol. Caiff y cynllun ei adolygu o dro i dro.

Os bydd angen, caiff blaenoriaethau newydd eu cynnwys i adlewyrchu'r sefyllfaoedd all godi. Rhagwelir y caiff rhai blaenoriaethau eu cadw am nifer o flynyddoedd ac y bydd gan rai o'r lleill oes lawer byrrach, er y gallai eu heffaith fod yn sylweddol.

Fel arfer, bydd y Grŵp yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd (bob chwarter o bosib) ar weithgareddau a chanlyniadau ar gyfer y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid, Grŵp Llywio HCAI / AMR Cymru ac ar gyfer y DU yn ôl y gofyn, gan ddarparu manylion gweithgareddau, yr amcanion a wireddwyd, cynlluniau'r dyfodol a heriau.

Gallai'r bwrdd hefyd adrodd a gwneud ceisiadau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn ôl y gofyn ac fel sy'n briodol. Rhoddir ystyriaeth bob tro i gydweithio â'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar AMR wrth gyfathrebu â dau weinidog y portffolio.

Oes y Grŵp:

Caiff y Grŵp Cyflawni ei sefydlu ar 13 Mai 2019 am gyfnod o bum mlynedd, tan 2024. Bydd y Bwrdd yn llunio ac yn cyhoeddi Cynllun Gweithredu Pum Mlynedd ar gyfer y cyfnod.

Gwerthuso:

Bydd y Grŵp Cyflawni yn ystyried y blaenoriaethau a roddir i bob amcan a'r amserlen ar gyfer ei wireddu. Rhaid i bob amcan fod yn fesuradwy er mwyn i'w lwyddiant allu cael ei fonitro.

Yn unol â'r ffordd hon o weithio sy'n seiliedig ar ganlyniadau, caiff Cerdyn Tystiolaeth ei lunio a'i gynnal ar gyfer pob blaenoriaeth. Rydym wedi cynnwys enghraifft yn Atodiad 2.

Bydd y Grŵp Cyflawni'n adolygu'r cylch gorchwyl a'r trefniadau gweithredu hyn bob blwyddyn.

ATODIAD 1 - Templed posib ar gyfer agenda:

Grŵp Cyflawni ar Ymwrthedd Gwrthficrobaidd mewn Anifeiliaid ac yn yr Amgylchedd

Agenda:

	Eitem	Amser	Cyflwynydd
1.	Croeso a Chyflwyniadau	10:30 – 11:00	Cadeirydd
2.	Cymeradwyo cofnodion a diweddarau'r camau i'w cymryd o'r cyfarfod diwethaf	11:00 – 11:30	(dolen yn y fan hon i gofnodion a chamau i'w cymryd)
3.	Y Diweddaraf gan OCVO	11:30 – 11:45	
4.	Y Diweddaraf am yr Amgylchedd	11:45 – 12:00	
	Cinio	12:00 – 12:30	
5.	Y Diweddaraf gan Iechyd Cyhoeddus Cymru	12:30 – 12:45	
6.	Y Diweddaraf am Aelodau	12:45 – 14:00	
7.	Eitemau ychwanegol ar yr agenda	14:00 – 15:00	
8.	Unrhyw Fater Arall	15:00 – 15:30	

Atodiad 2 - Cerdyn Tystiolaeth

	Beth	Er enghraifft
Mewnbynnau	Yr adnoddau sector cyhoeddus sydd eu hangen i wireddu amcanion polisi.	Cynllun Nwyddau Cyhoeddus
Gweithgareddau	Beth sy'n cael ei roi ran y sector cyhoeddus i'r derbynnydd	Arian sy'n gysylltiedig â Chynlluniau Iechyd Anifeiliaid sydd wedi'u paratoi ar y cyd â milfeddygon ar gyfer ffermydd penodol a safonau gofynnol (wedi'u pennu gan y bwrdd?) o ran Atal a Rheoli Heintiau
Allbynnau	Beth mae'r derbynnydd yn ei wneud gyda'r adnoddau, cyngor/hyfforddiant, neu'r ymyriad sy'n berthnasol iddo	Rhoi'r AHP ar waith yn llawn a chynnal archwiliadau annibynnol/ar hap a risg
Canlyniadau Canolraddol	Canlyniadau canolraddol y polisi a gynhyrchwyd gan y derbynnydd.	Mwy yn defnyddio brechlynnau Arferion hwsmonaeth a bioddiogelwch gwell Mwy o gyfraniad gan filfeddygon preifat ac o gydweithio â ffermwyr Gwneud y fferm yn fwy effeithlon a chynhyrchiol Defnyddio llai o wrthfotigau
Effeithiau	Canlyniadau economaidd a chymdeithasol ehangach	Gwella iechyd a lles anifeiliaid ar lefel y fferm Defnyddio llai o wrthfotigau a chynhyrchu llai o stoc sydd ag ymwrthedd i wrthfotigau